**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - <br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol, <br>- Trosglwyddo i gronfa benodol, <br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu <br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai** | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Canolog** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog | 4,146 | 4,507 | 4,187 | (320) | 50 | (270) | Sefyllfa tanwariant o (£320k) sy'n gynnydd (£83k) ers y rhagolygon chwarter cyntaf, yn cynnwys cynlluniau arbedion 'Categori C' (£253k) a gyflawnwyd yn gynharach na'r disgwyl, ynghyd ag arbedion staffio unwaith ac am byth (£67k). Oherwydd sefyllfa tanwariant ar y pennawd yma, mae'r Adran yn awyddus i drosglwyddo rhan o'r tanwariant o gyflawni cynlluniau arbedion 'Categori C', i sefydlu Cronfa Trawsffurfio Busnes Adrannol. Fodd bynnag, argymhellir fod y galwad cyntaf ar gyfer ategu'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2011/12 sydd heb eu cyflawni, a rhai sy'n edrych fel eu bod am dan-gyflawni erbyn 2012/13. Pe byddai'r sefyllfa yn newid, fe ellir wrth gwrs adolygu'r sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. <br>Yn ychwanegol, oherwydd sefyllfa tanwariant arall a welir o dan y pennawd yma, byddai'n briodol i drosglwyddo cyllideb ar sail unwaith ac am byth er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. | **Argymhellir** clustnodi £253k o'r arbedion 'Categori C', ar sail unwaith ac am byth am eleni, ac ar sail parhaol am 2012/13, ar gyfer ategu'r rhaglen cynlluniau arbedion tuag at y £16miliwn. <br>Yn ychwanegol, **argymhellir** trosglwyddo cyllideb o £50k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar gyllidebau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog =** | **4,146** | **4,507** | **4,187** | **(320)** | **50** | **(270)** | | |
| **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | | | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,329 | 2,329 | 2,855 | 526 | (500) | 26 | Cynnydd sylweddol o £501k yn y gorwariant a ragwelir ers y chwarter cyntaf, oherwydd nifer o achosion newydd, ac hefyd gostyngiad mewn cyfraniad gan yr Adran Addysg tuag at rai achosion penodol. <br>Oherwydd sefyllfa tanwariant ar rai penawdau cyllideb y Gwasanaeth Oedolion, byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant. | **Argymhellir** fod (£500k) o'r tan ddefnydd a welir o dan wahanol benawdau 'Oedolion' yn cael ei drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar y pennawd 'Lleoliadau All-Sirol'. |
| Maethu drwy Asiant | 1,573 | 1,573 | 1,653 | 80 | (30) | 50 | Gostyngiad o £65k yn y gorwariant ers y chwarter cyntaf, oherwydd trosglwyddiad un achos allan i Ol-Ofal, a lleihad yn y cynnydd a ragwelwyd yn flaenorol. <br>Oherwydd sefyllfa tanwariant ar rai penawdau cyllideb y Gwasanaeth Oedolion, byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant. | **Argymhellir** fod (£30k) o'r tan ddefnydd a welir o dan wahanol benawdau 'Oedolion' yn cael ei drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar y pennawd 'Maethu drwy Asiant'. |
| Gwasanaeth Ol -16 | 993 | 991 | 1,097 | 106 | (40) | 66 | Cynnydd o £92k yn y gorwariant a ragwelir, yn bennaf oherwydd gorwariant o £93k ar Gynlluniau Cefnogol. Oherwydd sefyllfa tanwariant ar rai penawdau cyllideb y Gwasanaeth Oedolion, byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant. | **Argymhellir** fod (£40k) o'r tan ddefnydd a welir o dan wahanol benawdau 'Oedolion' yn cael ei drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar y pennawd 'Gwasanaeth Ol-16'. |
| Eraill | 8,780 | 8,813 | 8,837 | 24 | | 24 | | |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd =** | **13,675** | **13,706** | **14,442** | **736** | **(570)** | **166** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

### Gwasanaeth Oedolion

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i -<br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol,<br>- Trosglwyddo i gronfa benodol,<br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu<br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Pobl Hŷn | 18,828 | 18,881 | 18,522 | (359) | 320 | (39) | Mae'r sefyllfa tanwariant wedi cynyddu (£133k) ers y chwarter cyntaf, yn cynnwys tanwariant o (£323k) yn erbyn y darpariaeth ar gyfer 'Newidiadau Demograffi', a thanwariant net o (£53k) ar Preswyl a Nyrsio Cartrefi Annibynnol.<br>Fe welir yma hefyd drosglwyddiad cyllidol perthnasol i'r argymhellion uchod a welir o dan cyllidebau Plant a Theuluoedd (sef trosglwyddo £320k ar sail unwaith ac am byth). | |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,192 | 2,189 | 2,046 | (143) | 100 | (43) | Sefyllfa tanwariant net, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn nifer lleoliadau Preswyl a Nyrsio (£34k), tanwariant ar Daliadau Uniongyrchol (£27k), a thanwariant o (£76k) ar Gofal Cartref, oherwydd gostyngiad mewn nifer achosion.<br>Fe welir yma hefyd drosglwyddiad cyllidol perthnasol i'r argymhellion uchod a welir o dan cyllidebau Plant a Theuluoedd (sef trosglwyddo £100k ar sail unwaith ac am byth). | |
| Anabledd Dysgu | 10,889 | 10,886 | 10,677 | (209) | 147 | (62) | Newid o (£227k) ers y sefyllfa gorwariant o £65k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys tanwariant o (£159k) ar Preswyl a Nyrsio, tanwariant o (£112k) ar Llety Cefnogol a thanwariant o (£89k) ar Gynlluniau Cefnogol. Yn ychwanegol, fe welir gorwariant o £201k (sef cynnydd o £181k ers y chwarter cyntaf) ar Wasanaethau Dydd (yn adlewyrchu effaith nifer o becynnau newydd a chostau ychwanegol ar rhai achosion).<br>Fe welir yma hefyd drosglwyddiad cyllidol perthnasol i'r argymhellion uchod a welir o dan cyllidebau Plant a Theuluoedd (sef trosglwyddo £100k ar sail unwaith ac am byth). Hefyd, fe welir yma arian bidiau a gymeradwywyd ac na ddefnyddiwyd eleni, ac yn unol a'r drefn arferol, fe'i rhoddi'r i fyny. | **Argymhellir** dychwelyd £47k o arian bid na ddefnyddir eleni i falansau cyffredinol. |
| Iechyd Meddwl | 3,144 | 3,070 | 3,086 | 16 | | 16 | Gwelliant o (£72k) yn erbyn y sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys arbedion staffio Gweithwyr Maes o (£79k), gorwariant o £81k ar Llety Cefnogol, a gorwariant o £20k ar Taliadau Uniongyrchol. | |
| Eraill | 2,787 | 2,837 | 2,859 | 22 | | 22 | | |
| **Cyfanswm Oedolion =** | **37,840** | **37,863** | **37,190** | **(673)** | **567** | **(106)** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Tai** | | | | | | | | |
| Digartrefedd | 828 | 797 | 818 | 21 | | 21 | Newid o £66k o'r sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth o (£29k), a gorwariant o £39k ar Llety dros dro, oherwydd cynnydd mewn nifer achosion ac hefyd gostyngiad yn y nifer tai ar gael i'r Cynllun Lesu Preifat. | |
| Eraill | 4,372 | 4,368 | 4,354 | (14) | | (14) | | |
| **Cyfanswm Tai =** | **5,200** | **5,165** | **5,172** | **7** | **0** | **7** | | |
| **Cyfanswm Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol =** | **60,861** | **61,241** | **60,991** | **(250)** | **47** | **(203)** | **Cyffredinol** Cynhwysir yma sawl argymhelliad perthnasol i raglen arbedion yr Adran a throsglwyddiadau cyllidol. Yn ychwanegol, fel cleient ar gyfer cartrefi preswyl y Cyngor sy'n y gwasanaeth Darparu, mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn debygol o wynebu costau o oddeutu £60k ar gyfer cynnal a mân welliannau yn y flwyddyn newydd. | **Argymhellir** fod yr Adran yn blaenoriaethu ar gyfer cwrdd â'r gofynion yma o fewn eu cyllidebau parhaol cyfredol. |
| **Darparu a Hamdden** | | | | | | | | |
| Gwasanaeth Canolog | 0 | (20) | (59) | (39) | | (39) | Sefyllfa tanwariant yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth. | |
| Darparu | (9) | (19) | 87 | 106 | | 106 | Newid sylweddol o £123k o'r sefyllfa tanwariant o (£17k) a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys cyfuniad o ostyngiad incwm a gwariant uwch ar Arlwyo £19k, Glanhau a Gofalu £17k, Preswyl a Dydd £54k, a Gwasanaethau Cymunedol £16k. | |
| Hamdden | 4,517 | 4,543 | 4,543 | 0 | | 0 | Sefyllfa niwtral gan fod incwm Cyfleusterau Hamdden wedi gostwng £87k, ond cymerwyd mesurau i gyfyngu rhai penawdau gwariant i alluogi cyfyngu'r gorwariant i £14k, a bu cyfuniad o incwm ychwanegol a gostyngiad ar wariant yn rhoddi tanwariant o (£14k) ar Ddatblygu Chwaraeon. | |
| **Cyfanswm Darparu a Hamdden =** | **4,508** | **4,504** | **4,571** | **67** | **0** | **67** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Addysg** | | | | | | | | |
| Cludiant | 4,585 | 4,508 | 4,564 | 56 | | 56 | Gostyngiad (£50k) o'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf. Mae'r gorwariant oherwydd methiant i gyflawni'r targed arbedion perthnasol i godiad incwm ar ddisgyblion ôl-16 yn llawn yn y flwyddyn ariannol yma, ar ôl ei weithredu o Fedi 2011. Bwriedi'r rheoli'r pontio ariannol perthnasol eleni o fewn adnoddau'r Adran. | |
| Diswyddo Gorfodol/Ymddeol Cynnar Gwirfoddol | 188 | 188 | 81 | (107) | 107 | 0 | Am eleni, rhagwelir tanwariant ar y ddarpariaeth yma, ac yn yr amgylchiadau mae'r Pennaeth Addysg yn awyddus i'w drosglwyddo i gronfa penodol wrth gefn ar gyfer gwariant cyffelyb yn y dyfodol. | **Argymhellir** fod £107k yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa penodol wrth gefn ar gyfer costau diswyddo / ymddeol athrawon yn y dyfodol. |
| Integreiddio | 2,149 | 2,148 | 2,079 | (69) | 69 | 0 | Mae'r pennawd yma wedi bod yn gyfnewidiol iawn yn y gorffennol, ond eleni fe ragwelir sefyllfa tanwariant, ac eto mae'r Pennaeth Addysg yn awyddus i'w drosglwyddo i gronfa penodol wrth gefn ar gyfer ymateb i unrhyw gynnydd mewn nifer disgyblion dwys a chymleth yn y dyfodol. | **Argymhellir** fod £69k yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa penodol wrth gefn ar gyfer Integreiddio disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol. |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg Heblaw mewn Ysgol | 2,317 | 2,188 | 2,026 | (162) | | (162) | Rhagwelir sefyllfa tanwariant, yn cynnwys (£74k) yn y maes Cefnogi Ymddygiad Disgyblion, (£40k) drwy newid trefniadau gwaith y Gwasanaeth Addysg Cartref, a (£48k) pellach drwy resymoli trefniadau'r Unedau. | |
| Eraill | 14,354 | 14,355 | 14,334 | (21) | | (21) | | |
| Ysgolion Datganoledig | 62,750 | 62,828 | 62,828 | 0 | | 0 | | |
| **Cyfanswm Addysg =** | **86,343** | **86,215** | **85,912** | **(303)** | **176** | **(127)** | | |
| **Economi a Chymuned** | | | | | | | | |
| Rheolaeth | 1,452 | 1,416 | 1,394 | (22) | | (22) | Sefyllfa tanwariant, yn bennaf oherwydd cyflawni rhaglen arbedion 2012/13 ymlaen llaw. | |
| Parciau Gwledig | 177 | 157 | 136 | (21) | | (21) | Rhagwelir sefyllfa tanwariant yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys cyfyngu gwariant (£20k), incwm ffioedd parcio ychwanegol (£10k) ym Mharc Padarn, a gorwariant net o £9k yn Mharc Glynllifon. | |
| Morwrol | (241) | (206) | (193) | 13 | | 13 | Newid sylweddol (£117k) o'r sefyllfa gorwariant £130k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys gostyngiad incwm ffioedd o £174k yn yr Hafan, Pwllheli, a gostyngiad incwm ffioedd £43k mewn Harbyrau. Mae'r Adran yn bwriadu ymateb i'r sefyllfa drwy gyfyngu ar benawdau gwariant amrywiol o (£54k), a defnyddio cyfuniad o gronfeydd wrth gefn a thanwariant adrannol blaenorol o (£150k) i gyfyngu'r gorwariant net i £13k yn unig.<br>Wrth lunio strategaeth gyllidol 2012/13, byddwn yn adolygu lefel y targed incwm perthnasol i gymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau a'r sefyllfa a ragwelir am y flwyddyn newydd. | |
| Eraill | 4,581 | 4,697 | 4,689 | (8) | | (8) | | |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned =** | **5,969** | **6,064** | **6,026** | **(38)** | **0** | **(38)** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol (cynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | | | | | | | | |
| **Maes Gwastraff** | | | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 3,770 | 3,821 | 3,905 | 84 | | 84 | Rhagwelir byddwn yn disgyn yn fyr o'r lefel targed ailgylchu mewnol, ac o ganlyniad, gwelir cynnydd mewn costau treth tirlenwi. | |
| Safleoedd Mwynderau | 844 | 771 | 614 | (157) | | (157) | Sefyllfa tanwariant yn bennaf oherwydd arbedion unwaith ac am byth o (£118k) o ganlyniad i oedi mewn agor safle mwynderau Dolgellau, ac arbedion gweithredol eraill o (£39k). | |
| Casglu Gwastraff ac Ail Gylchu | 4,078 | 4,257 | 4,044 | (213) | | (213) | Bu llithriad yn y rhaglen waith perthnasol i gylchdeithiau gwastraff bwyd, yn bennaf oherwydd oedi cyn derbyn cerbydau pwrpasol newydd, ac mae hynny wedi cyfrannu at sefyllfa o danwariant. | |
| Gwastraff Masnachol | 184 | 174 | 344 | 170 | | 170 | Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed ailgylchu a amcangyfrifwyd y llynedd ar gyfer eleni, ac o ganlyniad fe welir gorwariant sylweddol ar y costau gwaredu a'r costau tirlenwi perthnasol. Bwriedir adolygu'r sefyllfa'n gyflawn wrth sefydlu ffioedd gwastraff masnachol ar gyfer 2012/13. | |
| Safleoedd Gwaredu | 4,194 | 4,196 | 4,305 | 109 | | 109 | Sefyllfa gorwariant, yn cynnwys methiant i ddarganfod £170k o arbedion oedd i fod i ddilyn o'r targed ailgylchu masnachol (uchod), ond ar y llaw arall mae hyn hefyd wedi arwain at incwm ychwanegol o (£145k) i'r safleoedd. Hefyd, fe gynhwysir gwariant uwch o £100k ar elifiant yn Llwyn Isaf, gostyngiad yn nerbyniadau breindaliadau trydan o £59k, a thanwariant o (£76k) o ganlyniad i arbedion staffio unwaith ac am byth, ynghyd ag arbedion mewn costau gweithredol. | |
| Eraill (Gwastraff) | 746 | 671 | 650 | (21) | | (21) | | |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff =** | 13,816 | 13,890 | 13,862 | (28) | 0 | (28) | | |
| Priffyrdd a Bwrdesitrefol - Eraill | 16,377 | 16,513 | 16,510 | (3) | | (3) | | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol =** | **30,193** | **30,403** | **30,372** | **(31)** | **0** | **(31)** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)** | | | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 686 | 715 | 884 | 169 | | 169 | Rhagwelwyd gorwariant o £38k yn yr adolygiad cyllideb chwarter cyntaf, oherwydd gostyngiad mewn incwm o'r ffioedd cynllunio. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi dirywio ymhellach, ac er y derbynir llif o geisiadau bychan, y ceisiadau mawr sy'n absennol, a'r rheiny sy'n denu'r math o incwm sy'n arfer cynnal yr Uned. | |
| Meysydd Parcio | (1,009) | (914) | (835) | 79 | | 79 | Cymeradwyodd y Bwrdd ar 26/07/11 gais i rewi ffioedd parcio am eleni, ac i bontio'r bwlch cyllidol perthnasol drwy ryddhau £95k o ddarpariaeth wrth gefn y Cyngor. Fe adlewyrchi'r yr addasiad yma yn y sefyllfa a adroddir, gyda'r gweddill o'r gorwariant yn bennaf oherwydd colled incwm rhent sylweddol gan un methdalwr. | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,392 | 2,539 | 2,289 | (250) | | (250) | Sefyllfa tanwariant sylweddol sy'n bennaf oherwydd arbedion swyddi gwag, ymlaen llaw o ail-strwythuro. | |
| Eraill | 9,001 | 8,924 | 8,903 | (21) | | (21) | | |
| **Cyfanswm Rheoleiddio =** | **11,070** | **11,264** | **11,241** | **(23)** | **0** | **(23)** | | |
| **Ymgynghoriaeth** | | | | | | | | |
| Ymgynghoriaeth | (567) | (479) | (365) | 114 | (70) | 44 | Sefyllfa gorwariant, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn incwm (ffioedd proffesiynol ymgynghorol a dderbynnir ac sy'n arfer cynnal yr Uned). Mae'r Adran yn cymryd camau i ymateb i'r sefyllfa, gan gynnwys adolygu ei lefel gwariant ac incwm, a chymharu perfformiad hefo'r sector allanol, sy'n debygol o fod yn cystadlu am waith tebyg. I'r perwyl yma mae'r Pennaeth Ymgynghoriaeth yn awyddus i ostwng rhywfaint ar darged incwm ofynnol yr Adran, gan leihau'r gyfradd brisio er mwyn ei cynorthwyo i fod yn fwy cystadleol wrth geisio am waith newydd. | Yn yr amgylchiadau, **argymhellir** cymeradwyo £70k o gyllideb i'r Adran, i alluogi gostwng y gyllideb incwm cyfredol, ac i ddod o ddarpariaeth wrth gefn. |
| Rheolaeth Adeiladu | 269 | 266 | 361 | 95 | | 95 | Y sefyllfa gorwariant wedi gwaethygu o'r £16k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, a'r gostyngiad incwm sylweddol yn adlewyrchiad o'r darlun annodd a welir mewn cyfnod o dirwasgiad. Mae'r Adran yn cymryd camau i geisio lleihau'r diffyg erbyn diwedd y flwyddyn. | |
| Eraill | 864 | 869 | 889 | 20 | | 20 | | |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth =** | **566** | **656** | **885** | **229** | **(70)** | **159** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau Dynol** | | | | | | | | |
| Gwariant | 3,619 | | | | | | Sefyllfa tanwariant net sy'n deillio'n bennaf o danwariant o (£65k) yn yr Uned Gwasanaeth Cefnogol drwy wireddu eu targed arbedion yn gynnar, ac hefyd arbedion staffio unwaith ac am byth o ganlyniad i nifer uchel o absenoldebau mamolaeth. | |
| Incwm | (3,619) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Adnoddau Dynol =** | **0** | **139** | **71** | **(68)** | **0** | **(68)** | | |
| **Cyllid** | | | | | | | | |
| Gwariant | 7,385 | | | | | | Rhagwelir sefyllfa tanwariant net, yn cynnwys yn arbennig arbedion staffio unwaith ac am byth o (£76k) a £22k o gostau ychwanegol cynnal eiddo gwag. | |
| Incwm | (6,496) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Cyllid =** | **889** | **901** | **845** | **(56)** | **0** | **(56)** | | |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | | |
| Gwariant | 6,063 | | | | | | Fe ragwelwyd sefyllfa gorwariant o £130k yn y chwarter cyntaf, ac sydd bellach wedi gwella rhywfaint i lawr i £97k. Er y gwelir tanwariant staffio o (£34k) a tanwariant mewn costau trafnidiaeth o (£8k), fe ragwelir bellach fod yr Uned Argraffdy, oherwydd yn bennaf colled incwm, yn debygol o ddangos diffyg o £147k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fe gynhalwyd adolygiad busnes o sefyllfa'r Uned yn ddiweddar ac mi fydd y Pennaeth Adran yn cyflwyno adroddiad perthnasol i'r Grwp Arweinyddiaeth cyn gynted a phosib. Yn y cyfamser, mae'r Adran yn ystyried gwahanol ffynonellau cyllidol adrannol i geisio pontio'r sefyllfa am eleni, ac ymddengys yn rhesymol i ystyried cefnogaeth i hyn fel a argymhellir gyferbyn.<br>Yn ychwanegol, mae'r Pennaeth Adran yn awyddus i drosglwyddo £112k o'r Gronfa Democratiaeth i'r Gronfa Hyfforddiant Aelodau er mwyn sicrhau adnodd ddigonol i'r pwrpas, sydd dan ofalaeth y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn yr Uned Hyfforddiant. | Yn yr amgylchiadau, fe **argymhellir** rhoddi ystyrieth pellach i unrhyw gefnogaeth ariannol tuag at y sefyllfa ar ôl derbyn ac ystyried adroddiad y Pennaeth Adran Democratiaeth a Chyfreithiol ar y mater.<br>Yn unol â chais y Pennaeth Adran Democratiaeth a Chyfreithiol, **argymhellir** trosglwyddo £112k o'r Gronfa Democratiaeth i'r Gronfa Hyfforddiant Aelodau. |
| Incwm | (5,488) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Democratiaeth a Chyfreithiol =** | **575** | **638** | **735** | **97** | **0** | **97** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - <br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol, <br>- Trosglwyddo i gronfa benodol, <br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu <br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Gofal Cwsmer** | | | | | | | | |
| Gwariant | 11,649 | | | | | | Rhagwelir sefyllfa tanwariant yn deillio'n bennaf o arbedion staffio unwaith ac am byth mewn sawl uned, sef Uned Technoleg Gwybodaeth (£61k), Uned Cyfathrebu (£32k), Tim y We (£11k), Uned Eiddo (£71k), a'r Uned Prosesu (£6k). Fodd bynnag, fe welir hefyd sefyllfa gorwariant hefo sawl Uned, yn bennaf oherwydd methiant i wireddu'r cynlluniau arbedion eleni fel a fwriadwyd, ac sydd yn derbyn sylw pellach.<br>Gan fod y sefyllfa hefo adnoddau cyfalaf wedi mynd yn gyfnewidiol iawn, mae'r Pennaeth Adran yn awyddus i sicrhau'r gallu i ymateb i leihad mewn cynlluniau cyfalaf drwy addasu'r lefel staffio perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, gan sicrhau fod darpariaeth penodol wrth gefn ar gyfer costau diswyddo os yn ofynnol, bwriedir ei ariannu drwy symud incwm ychwanegol (a dderbynnir drwy gyfalafu costau staff i'r rhaglen cyfalaf) i gronfa benodol. | Yn unol a chais y Pennaeth Adran Gofal Cwsmer **argymhellir** trosglwyddo £47k ar gyfer costau diswyddo penodol i gronfa benodol er mwyn gallu ymateb i'r newidiadau yn y rhaglen gyfalaf. |
| Incwm | (9,378) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Gofal Cwsmer =** | **2,271** | **2,448** | **2,373** | **(75)** | **47** | **(28)** | | |
| **Strategol a Gwella** | | | | | | | | |
| Gwariant | 6,150 | | | | | | Sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys tanwariant o (£39k) yn deillio o wireddu arbedion effeithlonrwydd 2012/13 ymlaen llaw, incwm ychwanegol o (£16k) gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth, tanwariant o (£30k) gan yr Uned Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd oherwydd tanwariant staffio a gwasanaeth a chyflenwadau, a tanwariant o (£21k) gan yr Uned Adolygiadau Strategol. | |
| Incwm | (5,246) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Strategol a Gwella =** | **904** | **608** | **510** | **(98)** | **0** | **(98)** | | |
| **Tim Arweinyddiaeth** | | | | | | | | |
| Gwariant | 751 | | | | | | | |
| Incwm | (751) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Tim Arweinyddiaeth =** | **0** | **29** | **23** | **(6)** | **0** | **(6)** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

### Cyllidebau Corfforaethol

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i -<br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol,<br>- Trosglwyddo i gronfa benodol,<br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu<br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| Treth y Cyngor (adroddir yma ar y gwahaniaeth yn unig) | 0 | 0 | 70 | 70 | | 70 | Ar gyfer cyllideb 2011/12, codwyd y gyfradd casglu tybiannol ar gyfer Treth y Cyngor o 98% i 99%. Er gallai'r perfformiad fod yn gyfnewidiol rhwng gwahanol adegau o'r flwyddyn, fe ragwelir am y tro, gostyngiad o £70k yn y treth a gasglir, sydd mae'n debyg yn adlewyrchiad o'r sefyllfa economaidd gyffredinol. | |
| Derbyniad Llog Net | (700) | (700) | (810) | (110) | | (110) | Rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu cynnydd mewn derbyniad llog net o (£110k) oherwydd perfformiad gwell na'r disgwyl, o ganlyniad i gyfraddau llôg ychydig uwch na ddisgwyliwyd, ynghyd â llif arian fwy ffafriol.<br>Oherwydd natur cyfnewidiol yn y maes yma, ni wneir argymhelliad pendant ar y mater tan hwyrach yn y flwyddyn. | |
| Cynlluniau Arbedion Corfforaethol | (838) | (920) | (738) | 182 | | 182 | Bu cynnydd sylweddol yn y cynlluniau arbedion a wireddwyd, ond am y tro fe ragwelir na fydd £182k o'r targed corfforaethol wedi ei gyflawni eleni. | |
| Eraill | 16,757 | 17,050 | 17,049 | (1) | | (1) | | |
| **Cyfanswm Net Corfforaethol =** | **15,219** | **15,430** | **15,571** | **141** | **0** | **141** | | |
| **Cyfanswm (i bwrpas adolygu) =** | **219,368** | **220,540** | **220,126** | **(414)** | **200** | **(214)** | | |